Pob peth, ymhell ac agos

Caneuon Ffydd: Rhif 130

Pob peth, ymhell ac agos,
sy'n dangos Duw i'r byd,
ei enw sydd yn aros
ar waith ei law i gyd;
efe a wnaeth y seren
yn ddisglair yn y nen,
efe a wnaeth y ddeilen
yn wyrddlas ar y pren.

Ar ei drugareddau
yr ydym oll yn byw;
gan hynny dewch a llawenhewch,
cans da yw Duw.

Mae'r nefoedd a'i chymylau
o dan ei gadarn law,
mae'n rhoddi'r heulwen olau,
mae'n rhoddi gwlith a glaw;
mae gwyntoedd oer y gaeaf
yn ufudd iddo ef,
ac ni ddaw un cynhaeaf
ond drwy ragluniaeth nef.

Mae'n newid ei fendithion
i gwrdd ag angen dyn;
mae'n ddoeth ymhob dibenion,
erioed ni fethodd un;
ein bara sydd bob bore
yn dod o'i ddwylo ef,
a chynnal ein heneidiau
wna byth â bara'r nef.

ELFED, 1860 –1953

MYFYRDOD

Pe byddem â'r llygaid i weld, fe welem fod popeth o'n cwmpas, yn weledig ac yn anweledig, 'pob peth, ymhell ac agos', wedi eu gwneud gan Dduw, a hynny trwy Grist. Datgan mae Elfed yn ei emyn i Dduw y Creawdwr fod stamp Duw 'ar waith ei law i gyd'.

Pan fyddwn ni'n prynu rhywbeth, byddwn yn chwilio yn aml am stamp y gwneuthurwr ar y peth hwnnw, boed yn gar, neu'n deledu neu'n ddillad. Chwiliwn yn aml am wneuthurwr y gallwn ni ymddiried yn ei safon, ac, o ganlyniad, ddibynnu ar y nwyddau mae'n eu cynhyrchu.

Sonia Dafydd y Salmydd am ein gwneuthuriad ninnau, a'i fod yn un 'ofnadwy a rhyfedd' (Salm 139:14 BWM). Eto nid yw pobl yn fodlon cydnabod bod ganddyn nhw Greawdwr.

Sylweddolodd Dafydd ryfeddod y cread a dirgelwch y corff dynol dros dair mil o flynyddoedd yn ôl, gan foli gallu a chywreinrwydd y Creawdwr. Gwelodd ef yn eglur y stamp sydd ar bob dim yn y cread sy'n nodi: 'Gwnaed gan Dduw.'

Felly y sylwodd Ioan, y disgybl a dreuliodd gymaint o amser yng nghwmni Iesu, pan ysgrifennodd yn ei Efengyl: 'Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod' (Ioan 1:3). Dyma ddiben y cread.

Mae Duw yn ei ddatguddio'i hun inni yn ei waith ac yn ei fendithion, a dylem fod yn ddiolchgar iddo am ei ddarpariaeth inni. Ond a wyddom ni mewn gwirionedd sut un ydy Duw trwy'r hyn a welwn o'n cwmpas? Mae Martin Luther, y diwygiwr Protestannaidd mawr, yn sôn yn ei esboniad ar lythyr Paul at y Galatiaid, wrth sylwi ar Galatiaid 4:8, fod gan bob dyn yr wybodaeth gyffredinol hon am Dduw y Creawdwr, ond na wyddant sut mae'n teimlo tuag atyn nhw. Gallwn adnabod rhywun yn ôl ei olwg, meddai, ond heb ei adnabod yn llawn am na wyddom ni sut deimladau sydd gan y person hwnnw tuag atom. 'Crist yw yr unig ffordd . . . a'r drych yr ydym trwyddo yn gweld Duw, ac y gwyddom ei ewyllys' meddai wrth sylwi mai un peth yw adnabod Duw fel Creawdwr pob peth, ond mai peth arall yw gwybod sut y lluniodd bob dim ac i ba ddiben.

Erbyn diwedd ein hemyn, fe gawn weld gan Elfed hefyd nad Duw y Creawdwr yn unig yw ein Duw ni, ond ei fod yn fugail ein heneidiau yn ogystal, ac wedi dangos hynny inni yn aberth Crist drosom ar y groes. Os yw, yn ei ras, yn cynnal ein cyrff â'r 'bara sydd bob bore yn dod o'i ddwylo ef', diolchwn iddo fod ganddo fwriadau ar ein cyfer sydd y tu hwnt i'r byd hwn, a'i fod yn 'cynnal ein heneidiau . . . byth â bara'r nef'.

GWEDDI

Diolchwn iti, Dad nefol, am dy ddatguddio dy hun inni ym mhopeth a greaist o'n cwmpas. Ar dy drugaredd di yr ydym oll yn byw. Ond diolchwn iti dy fod yn cynnal mwy na'r corff yn unig ac wedi rhoi datguddiad cyflawn ohonot ti dy hun a'th fwriadau daionus tuag atom yn Iesu Grist dy Fab. Llawenhawn yn dy ddaioni, O Dduw. Yn enw Iesu. Amen.